GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

Cynllun Tymor Canolig Integredig
Fersiwn Bob Dydd

2022 > 25

Powys GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

RYDYN NI'N DATBLYGU GWELEDIGAETH AR GYFER DYFODOL IECHYD A GOFAL YM MHOWYS...

EIN GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

CANOLBWYNTIO AR ANGHYDRADDOLDEBAU AC AR BOBL Â'R ANGEN MWYAF

GWELLA IECHYD A LLES

ARWEINYDD YM MAES IECHYD A GOFAL GWLEDIG INTEGREDIG

HYD 2027 A THU HWNT...

EIN NOD YW CYFLAWNI'R WELEDIGAETH HON GYDOL OES POBL POWYS...

FE FYDDWN NI'N CEFNOGI POBL I WELLA'U HIECHYD A'U LLES TRWY...



FE FYDD EGWYDDORION EGLUR WRTH WRAIDD EIN BLAENORIAETHAU A'R CAMAU Y BYDDWN NI'N EU CYMRYD...

FE FYDD DYFODOL IECHYD A GOFAL YN GWELLA TRWY...

DYFODOL Y GWEITHLU

AMGYLCHEDDAU ARLOESOL

DIGIDOL YN GYNTAF

TRAWSNEWID MEWN PARTNERIAETH

Yr Athro Vivienne Harpwood
(Y Cadeirydd)

Carol Shillabeer
(Prif Weithredwr)

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd hwn (2022-25) yn nodi pwynt pwysig yn nilyniant y pandemig ac yn rhoi cip olwg i ni ar y dyfodol. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael eu rheoli gan bandemig COVID-19 a'i effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol. Cyflwynir blaenoriaethau ar gyfer y 3 blynedd nesaf sy'n ystyried ac yn ymateb i'r effeithiau hyn.

Mae dychwelyd i ffocws tymor canolig a hirdymor yn rhoi cyfle i adlewyrchu ar, ac i ailymrwymo i'r uchelgais gyfunol ar gyfer 'Powys Iach a Gofalgar'. Rydym bellach hanner ffordd drwy'r Strategaeth Iechyd a Gofal hon, ac mae ganddi bwysigrwydd newydd. Mae'r strategaeth hon yn angor ar gyfer iechyd a gofal ym Mhowys fel rhanbarth, ac felly mae'n nodi'r trawsnewid sydd o'n blaenau. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth a gofal i boblogaeth gyfan Powys, gan alluogi pobl i ddechrau'n dda, byw'n dda ac i heneiddio'n dda.

Mae'r Strategaeth, ac felly'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar 8 amcan lles ac mae wedi'i seilio ar egwyddorion arweiniol allweddol a ddatblygwyd gyda phobl Powys, gan gynnwys 'Gwneud Beth sy'n Bwysig,' 'Gwneud Beth sy'n Gweithio', 'Canolbwyntio ar yr Angen Mwyaf', 'Bod yn Ddarbodus', 'Cynnig Mynediad Teg' a 'Gweithio Gyda Chryfderau Pobl a Chymunedau.' Fel bwrdd iechyd, rydym yn glir yn ein huchelgais i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir ac felly mae'r cynllun hwn yn cwmpasu camau gweithredu allweddol sy'n cyfrannu at les ehangach, gan gynnwys dad-garboneiddio, yr economi sylfaenol a phartneriaeth gymdeithasol. Mae'r Cynllun hwn hefyd yn cysylltu â Chynllun Lles 'Tuag at 2040' Bwrdd Gwasanaethau Powys.

Mae cysylltiad cryf rhwng 'Powys Iach a Gofalgar' a'r strategaeth iechyd a gofal ym Mhowys, a'r nod 'Cymru Iachach' a chynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aliniad hwn yn fwy angenrheidiol byth o ganlyniad i'r pandemig, gan fod y GIG yng Nghymru, gyda phartneriaid, yn edrych ymlaen at gyfnod o adferiad a thrawsnewid. Mae'r bwrdd iechyd yn ddarparwr ac yn gomisiynydd gofal iechyd i boblogaeth Powys sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr, ac mae'r bwrdd iechyd wedi dangos hanes cryf o fabwysiadu 'dull system gyfan' o gynllunio gofal, gyda phartneriaid. Mae adfer y gofal a chafodd ei ohirio oherwydd y pandemig yn brif flaenoriaeth; wrth ailgynllunio dulliau gofal sy'n galluogi mwy o ofal yn nes at adref drwy wasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel. Bydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yn yr agenda adfer ac adnewyddu wrth symud ymlaen.

Mae cryfder y gweithlu iechyd a gofal, y gymuned ym Mhowys a'r ymateb i'r pandemig wedi bod yn arbennig ac yn agoriad llygad. Mae pob un ohonynt wedi gwneud ymdrechion ac aberthau i gadw Powys yn ddiogel, gan weithio law yn llaw o'r camau cychwynnol lle'r oedd y ffocws ar fesurau atal a'r rhaglen frechu yn fwy diweddar, sef y llinell amddiffyn gyntaf yn erbyn coronafeirws. Mae'n debygol bydd heriau o'n blaenau, ac er bod yr uchelgais yno, efallai na fydd adferiad yn syml, ac efallai y bydd angen addasu'r camau sy'n ein dal yn ôl. Fodd bynnag, bydd yr ysbryd a'r gwaith caled a welodd Powys drwy'r pandemig yn allweddol i lwyddo a chyrraedd nodau gwella iechyd a lles pobl Powys.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun hwn wrth symud ymlaen.

Cynllun ar Dudalen

1. Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd a Gwella Iechyd y Boblogaeth
2. Gwelliant Iechyd
3. Ymateb ac Atal Covid



4. Gofal Sylfaenol Cynaliadwy o Ansawdd Uchel
5. Diagnosteg, Triniaeth Ddydd a Gofal wedi'i Gynllunio
6. Plant, Pobl Ifanc a'u teuluoedd

7. Canser
8. Clefyd Cylchredol
9. Anadlu'n Dda (Anadlol)
10. Iechyd Meddwl



11. Model Eiddilwch a Chymunedol gan gynnwys Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng
12. Gwasanaethau Arbenigol



13. Cynllunio'r Gweithlu
14. Arweinyddiaeth a Datblygiad Tîm
15. Lles Staff ac Ymgysylltiad
16. Addysg a Hyfforddiant
17. Partneriaeth a Dinasyddiaeth

18. Systemau Clinigol Digidol
19. Seilwaith Digidol a Deallusrwydd



20. Lleihau defnydd carbon, bioamrywiaeth a lles amgylcheddol
21. Ystadau, Cyfalaf a Gwella Cyfleusterau



22. Ansawdd ar hyd y system gyfan
23. Cydweithio'n Integredig
24. Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werth
25. Llywodraethu a Gwelliant Sefydliadol









Canolbwyntio ar Les Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol a Chamau Allweddol	
1. **Gweithredu er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth.**	
Camau Allweddol:	
- Darparu cyngor arbenigol, arweiniad a chamau gweithredu ar iechyd y cyhoedd a'r boblogaeth, ac anghydraddoldebau (gan gynnwys y pum niwed).	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
- Archwilio ac ymateb i effaith COVID ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth.	
- Cefnogi'r adolygiad o Gynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod blaenoriaethau iechyd y boblogaeth yn cael eu cydnabod.	
- Sicrhau gwelliant drwy Gynllun Gwaith y Gymraeg a Chydraddoldeb.	Cyfarwyddwr Therapïau
2. **Darparu Blaenoriaethau Gwella Iechyd**, gan gynnwys rheoli pwysau, rhoi'r gorau i ysmygu, iechyd a lles y blynyddoedd cynnar a theuluoedd.	
Camau Allweddol:	
- Rhoi camau gweithredu ar waith yn y maes Pwysau Iach: Cynllun Cyflawni Cymru Iach 2020-2022, gweithredu llwybr rheoli pwysau cynhwysfawr ar gyfer oedolion a phlant, pobl ifanc a theuluoedd.	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
- Integreiddio'r gwasanaeth 'rhoi'r gorau i ysmygu' arbenigol yn well, ac ail-ymgysylltu â fferyllfeydd cymunedol i hyrwyddo'r gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu ac archwilio opsiynau ar gyfer darparu gofal sylfaenol.	
- Buddsoddi yn y gwaith o Adeiladu Cymru Iachach a chyllid ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn unol â blaenoriaethau a llywodraethu cenedlaethol.	
- Parhau i gyflwyno cynlluniau Ysgolion Iach a Chyn-ysgolion Iach/Bach a Iach, gan ganolbwyntio ar bwysau iach, iechyd a lles emosiynol a meddyliol ac RSE(perthnasoedd ac addysg rhyw).	
- Rheoli'r gwaith o drosglwyddo Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Powys i BIAP.	
3. Datblygu a gweithredu model 'busnes fel arfer' ar gyfer **Atal ac Ymateb COVID-19 a chynllun brechu integredig, cynhwysfawr.**	
Camau Allweddol:	
- Gweithredu cynllun pontio Atal ac Ymateb COVID-19.	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad
- Cynnig triniaethau gwrthfeirysol ac opsiynau therapiwtig eraill yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael.	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad
- Darparu Strategaeth Frechu COVID-19 ar gyfer 2022.	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad
- Gweithredu Fframwaith Brechu Cenedlaethol i Gymru.	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad

Mae 'Canolbwyntio ar Les' yn ymdrechu i alluogi plant a phobl ifanc i 'ddechrau'n dda', i bobl 'fyw'n dda' ac i bobl hŷn 'heneiddio'n dda'.

Canlyniadau Powys

- Rydw i'n gyfrifol dros fy iechyd a lles i.
- Rydw i'n gallu byw bywyd llawn.
- Rydw i'n gallu, ac yn cael fy nghefnogi i wneud penderfyniadau ffordd iach o fyw ar fy iechyd meddwl a chorfforol, a lles, i fy hun a fy nheulu.
- Mae gen i gyfleoedd bywyd, ni waeth pwy ydw i a ble rydw i'n byw ym Mhowys.
- Mae fy amgylchedd/cymuned yn fy nghefnogi i fod yn gysylltiedig a chynnal iechyd a lles da.
- Fel gofalwr, rydw i'n gallu byw bywyd llawn a theimlo fy mod yn cael fy nghefnogi.

Blaenoriaethau Strategol

1. Gweithredu er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth.
2. Darparu blaenoriaethau gwella iechyd, gan gynnwys rheoli pwysau, rhoi'r gorau i ysmygu, iechyd a lles y blynyddoedd cynnar a theuluoedd.
3. Datblygu a gweithredu model busnes fel arfer ar gyfer Atal ac Ymateb COVID-19 a chynllun brechu integredig, cynhwysfawr.



HELP A CHEFNOGAETH GYNNAR

Help a Chefnogaeth Gynnar Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol a Chamau Allweddol	
4. Gwella Mynediad at Ofal Sylfaenol Cynaliadwy o Ansawdd Uchel	
Camau Allweddol:	
- Ymarfer Cyffredinol: Adnewyddu ac adfer y Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol, diwygio contractau, cynaliadwyedd, gweithio'n integredig, y tu allan i oriau.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
- Cyflymu Datblygiad Clwstwr gan gynnwys Cyflawni Cynlluniau Clwstwr 2022 – 2023.	
- Gwasanaethau Deintyddol: Adferiad, mynediad ychwanegol i ganolbarth Powys, Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd, llawdriniaeth ar y geg, cynnig hyfforddiant, cymorth deintyddol pediatrig, uned symudol, Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.	
- Optometreg: Gweithredu gwaith i ddiwygio contractau, datblygu rolau clinigol a chyflawni yn erbyn cynllun adfer gofal llygaid cenedlaethol.	
- Fferyllfa: Gweithredu gwaith i ddiwygio contractau, hyfforddiant a datblygu rolau, Presgripsiynu Annibynnol a Mân Anhwylderau.	
5. Datblygu Model Diagnostig, Symudol a Gofal Wedi'i Gynllunio system gyfan	
Camau Allweddol:	
- Darparu'r rhaglen Diagnosteg, Symudol a Gofal Wedi'i Gynllunio a'r Ffrwd Waith Cyngor, Cymorth a Rhagsefydlu (Portffolio Adnewyddu).	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad
- Paratoi gwelliannau ar gyfer maes Gofal Wedi'i Gynllunio. Byddant hefyd yn gwella gwasanaethau lleol a rhanbarthol gan gynnwys endosgopi, diagnosteg, sgrinio serfigol a'r coluddyn, theatr a thriniaethau, cleifion allanol a rheoli meddyginiaethau.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
- Gweithredu model meddygol a gweithlu cynaliadwy. Byddant yn ymgorffori dull o ddysgu o wydnwch y system ac ymateb amlasiantaethol i'r pandemig; dull integredig ar gyfer anghenion gofal cymhleth.	Cyfarwyddwr Nyrsio Cyfarwyddwr Therapïau
6. Gwella mynediad i wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar o ansawdd uchel i **blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.**	
Camau Allweddol:	
- Cyflawni Blaenoriaethau 'Dechrau'n Dda' y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, twf a datblygiad iach; plant ag anghenion ac anableddau cymhleth; mynediad i blant sy'n derbyn gofal.	Cyfarwyddwr Therapïau Cyfarwyddwr Nyrsio
- Gweithredu llwybrau Mamolaeth a Newyddenedigol. - Gan ystyried Cynllun Gwella Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol GIG Cymru ac Adroddiad Ockenden yn GIG Lloegr.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl Cyfarwyddwr Nyrsio
- Ailgynllunio'r gwasanaethau allweddol i fenywod a phlant gan gynnwys y gwasanaeth Niwroddatblygu, gwasanaethau iechyd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd a therapïau pediatrig.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl Cyfarwyddwr Therapïau

Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn cynnig help a chefnogaeth i alluogi plant a phobl ifanc i 'ddechrau'n dda', i bobl i 'fyw'n dda' ac i bobl hŷn 'heneiddio'n dda'.

Canlyniadau Powys

- Rydw i'n gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth yn hawdd er mwyn parhau i gadw'n weithgar ac yn annibynnol.
- Fel plentyn a pherson ifanc, mae gen i'r cyfle i brofi'r dechrau gorau ym mywyd.
- Mae gen i fynediad, cyngor a chefnogaeth hawdd i'm helpu i fyw'n dda gyda fy nghyflwr cronig.

Blaenoriaethau Strategol

4. Gwella mynediad at ofal sylfaenol cynaliadwy o ansawdd uchel.

5. Datblygu a gweithredu model gofal diagnostig wedi'i gynllunio ar gyfer system gyfan, sy'n darparu mwy o ofal yn nes at adref.

6. Gwella mynediad i wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar o ansawdd uchel i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol Tair Blynedd a Chamau Allweddol	
7. Gweithredu gwelliannau mewn maes diagnosis cynnar, triniaeth a chanlyniadau i bobl sydd â chanser neu yr amheuir bod ganddynt **ganser**.	
Camau Allweddol:	
- Gwella mynediad at Brofion Carthion Imiwnocemegol. - Gwell mynediad at ganolfannau diagnostig cyflym ar gyfer symptomau amwys. - Gweithio gyda Rhwydwaith Canser Cymru ar y llwybrau gorau a datganiad ansawdd. - Olrhain Llwybr Lle'r Amheuir Canser a dull o adolygu niwed. - Dod o hyd i'r potensial ar gyfer Canolfan Ddiagnostig Gyflym a ddarperir gan Bowys. - Cwmpas diagnosteg gymunedol, gan gynnwys CT mewn ysbytai. - Gweithredu cytosponge gyda BIPBC; Endosgopi trawsnasal.	Cyfarwyddwyr Meddygol
8. Gweithredu gwelliannau mewn canlyniadau, profiad a gwerth ym maes clefydau cylchrediad y gwaed (**Strôc, Clefyd y Galon, Diabetes**).	
Camau Allweddol:	
- Dadansoddi'r bylchau mewn gwasanaethau a Chynllun Fesul Cam. - Datblygu'r gweithlu cardiaidd. - Datblygu Gwasanaeth Cardiaidd Cymunedol. - Gwella mynediad at ddiagnosteg yn unol â rhaglenni cenedlaethol. - Asesu / rheoli effaith cynigion strategol ar gyfer Strôc. - Gwasanaeth atal strôc gynradd ac eilaidd yn seiliedig ar dystiolaeth. - Mynediad teg at wasanaethau adsefydlu cardiaidd ar gyfer pob llwybr.	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
9. Datblygu a gweithredu cam nesaf o'r **Rhaglen Anadlu'n Dda**, sydd wedi'i anelu'n benodol at ddarparu gofal yn agosach at gartref a chanolbwyntio ar ofal Anadlol Plant a Phobl Ifanc.	
Camau Allweddol:	
- Datblygu a gweithredu cynllun i fodloni Safonau Ansawdd. - Gwerthuso opsiynau a gweithredu model meddygol. - Cynllun ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Chyflyrau Anadlol. - Dull graddol o ymdrin â diagnosteg anadlol yn nes at adref.	Cyfarwyddwr Therapïau
10. Cwblhau Adolygiad Strategol o **Iechyd Meddwl** i wella canlyniadau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol.	
Camau Allweddol:	
- Adolygiad Strategol o wasanaethau. - Tendr / Dyfarniad Tŷ Noddfa C1 Darpariaeth a Monitro. - Pwynt Mynediad Sengl 111 – Tendr C1, Darpariaeth a Monitro. - Cyflwyno gwaith Ailgynllunio Cynllun Gweithredu Dementia ac Asesiad Cof. - Darparu Strategaeth Beth am Siarad â Fi? ym Mhowys. - Cyflwyno gwasanaeth iechyd a gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl

Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd y bwrdd iechyd yn datblygu gwasanaethau'n effeithiol i drin a chefnogi pobl sy'n dioddef o bedwar prif achos afiechyd a marwolaethau cynamserol ym Mhowys.

Canlyniadau Powys

- Rydw i'n gallu cael gafael ar gymorth, gwybodaeth a diagnostig cynnar.
- Mae gen i ymyrraeth gynnar a thriniaeth briodol.
- Mae fy nhriniaeth a'm cefnogaeth o ansawdd uchel, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn amserol mor lleol â phosibl.

Blaenoriaethau Strategol

7. Gweithredu gwelliannau ym maes diagnosis cynnar, triniaeth a chanlyniadau i bobl sydd â chanser neu yr amheuir bod ganddynt ganser.

8. Gweithredu gwell canlyniadau, profiad a gwerth ym maes afiechyd cylchredol (Strôc, Clefyd y Galon, Diabetes).

9. Datblygu a gweithredu'r cam nesaf o'r Rhaglen Anadlu'n Well, sydd wedi'i hanelu'n benodol at ddarparu gofal yn agosach at gartref a chanolbwyntio ar ofal Anadlol Plant a Phobl Ifanc.

10. Cynnal Adolygiad Strategol o Iechyd Meddwl, gan arwain at Gynllun Strategol i wella canlyniadau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

Gofal Cydgysylltiedig Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol Tair Blynedd a Chamau Allweddol	
11. Dylunio a chyflwyno **model eiddilwch a chymunedol** sy'n gwella canlyniadau, profiad a gwerth a'r **chwe nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.**	
Camau Allweddol:	
Datblygu a darparu Model Eiddilwch a Chymunedol gan gynnwys gofal dwys yn y gymuned a gofal yn y cartref; llwybrau eiddilwch gan gynnwys achosion o gwympo yn y cartref ac ethos. - Cwblhau gwaith ar fodel trosfwaol yn dilyn gwaith Dadansoddi o'r Bylchau (ysbytai cymunedol a gwasanaethau cymunedol). - Prosiect Sgorio Eiddilwch. - Diwylliant a newid - cydweithio gyda Gwelliant Cymru. - Datblygu model y gweithlu. - Cynllun Uwchgyfeirio Triniaeth - cadarnhau dull. - Datblygu a Gweithredu Asesiadau Cymhleth i'r Henoed. - Adolygu Llwybr Achosion o gwympo i sicrhau eu bod wedi integreiddio. - Cadarnhau dull trawsbynciol ar gyfer gofal diwedd oes o fewn y model. - Adborth o well gwybodaeth. Datblygu dull gofal yn seiliedig ar leoedd yn Nwyrain Sir Faesyfed, gan adeiladu ar yr arbenigedd a'r adnoddau yn Nhrefyclo a'r Cylch yn benodol.	Cyfarwyddwr Meddygol Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl

Yn parhau ar y dudalen nesaf...

Mae'r adran hon yn nodi sut mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu darparu profiad cwbl integredig o iechyd a gofal.

Canlyniadau Powys

- Mae gen i fynediad at wasanaethau teg mor lleol â phosibl.
- Rydw i'n cael fy nhrin fel unigolyn gydag urddas a pharch.
- Mae fy ngofal a'm cymorth yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysicaf i mi.
- Rydw i'n derbyn gofal parhaus sy'n ddiogel ac yn diwallu fy anghenion.
- Rydw i'n ddiogel ac yn cael fy nghefnogi i fyw bywyd llawn.
- Rydw i'n derbyn gofal diwedd oes sy'n parchu'r hyn sy'n bwysig i mi.

Blaenoriaethau Strategol

11. Dylunio, datblygu a chyflwyno Model Eiddilwch a Chymunedol sy'n gwella canlyniadau, profiad a gwerth a'r chwe nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

12. Cefnogi gwell mynediad at Wasanaethau Arbenigol a chanlyniadau ohonynt (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, pediatreg arbenigol, trawma mawr, babanod newydd-anedig, PET, yn ogystal â chynllunio adferiad ar gyfer llawdriniaeth fariatrig, llawdriniaeth ar y galon, llawfeddygaeth blastig, niwrolawdriniaeth, llawdriniaeth bediatrig).

Gofal Cydgysylltiedig Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol Tair Blynedd a Chamau Allweddol	
11. Dylunio a chyflwyno **model eiddilwch a chymunedol** sy'n gwella canlyniadau, profiad a gwerth a'r **chwe nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.**	
Camau Allweddol:	
Darparu model 'Chwe Nod' Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Nod 1 Cydgysylltu, cynllunio a chefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o fod angen Gofal Brys Heb ei Drefnu (UEC). ➢ Adeiladu ar y gwaith o bennu lefel risg a arweinir gan glwstwr a wardiau rhithwir. Nod 2 Cyfeirio, gwybodaeth a chymorth. ➢ Darparu Model Gofal Brys 24/7, gan weithio gyda phartneriaid i adolygu'r defnydd o GIG 111 Cymru a'r Cyfeiriadur o Wasanaethau. ➢ Profi potensial ar gyfer Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCCs). Nod 3 Dewisiadau amgen sy'n glinigol ddiogel yn lle derbyn i'r ysbyty. ➢ Adolygu llwybrau gofal brys ar yr un diwrnod. ➢ Adolygu llwybrau gofal canolraddol (camu ymlaen). ➢ Asesu llinellau cyngor a chyfarwyddyd arbenigol. Nod 4 Ymateb cyflym mewn argyfwng. ➢ Gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ddarparu'r llwybrau 999 gorau. ➢ Gweithio gyda phartneriaid a gomisiynwyd i sicrhau gofal diogel ac amserol o ansawdd uchel o fewn Adrannau Achosion Brys. Nod 5 Yr arfer gorau posibl o ran gofal ysbyty a'r broses rhyddhau o'r pwynt derbyn. ➢ Adeiladu ar y cynnydd a wnaed ar draws y system i wella llif y cleifion er mwyn lleihau'r niwed i gleifion yn yr ysbyty / yn y gymuned sy'n aros am ymateb a lleihau hyd cyfartalog yr arhosiad i 28 diwrnod. ➢ Gweithredu canllawiau mwy DIOGEL ar gyfer llif y cleifion. Nod 6 Dull cartref yn gyntaf a lleihau'r risg o aildderbyn. ➢ Hyrwyddo ethos o'r cartref yn gyntaf a chefnogi'r broses o ryddhau cleifion i asesu ac adfer, gan leihau hyd arhosiad ac oedi wrth drosglwyddo i wella canlyniadau, adolygu trefniadau adsefydlu ac ailalluogi. ➢ Gweithio gyda'r sector gofal i wella gwydnwch mewn gofal cartref a gofal preswyl / nyrsio ac ymgorffori newidiadau a phrosesau sy'n cael effaith mawr ➢ Cydweithio gyda Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; uchelgeisiau trawsnewid fel y nodir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. ➢ Dysgu o'r System Gydnerth / Cynllun y Gaeaf; nodi newidiadau effaith uchel pellach ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
12. Cefnogi gwell mynediad at **Wasanaethau Arbenigol** a'u canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, paediatreg arbenigol, trawma mawr, babanod newydd-anedig, yng nghyd â chreu cynllun adfer ar gyfer llawdriniaeth fariatrig, llawdriniaeth gardiaidd, llawdriniaeth blastig, niwrolawdriniaeth a llawdriniaeth baediatrig.	
Camau Allweddol:	
- Gweithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i weithredu Cynllun Comisiynu Integredig. Sicrhau mynediad a chanlyniadau teg i boblogaeth Powys a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag amrywiad.	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad



Dyfodol y Gweithlu Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol Tair Blynedd a Chamau Allweddol	
13. Dylunio, datblygu a gweithredu dull cynhwysfawr o **gynllunio'r gweithlu**, gan ganolbwyntio ar ddenu/ sicrhau gweithlu ar gyfer gwasanaethau wedi'u targedu (gan gynnwys recriwtio rhyngwladol).	
Camau Allweddol:	
• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen adnewyddu systematig a modelau gwasanaeth sy'n seiliedig ar werthoedd gyda'r gwaith o gynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar gymwyseddau. • Adolygu a datblygu model gweithlu cynaliadwy yn systematig (Ymateb Covid, model staffio/meddygol, trawsnewid ac adnewyddu). • Gweithredu Pecyn Cymorth Cynllunio Gweithlu Cymru Gyfan yn llawn. • Hwyluso sgyrsiau gwerth cyhoeddus ym maes datblygu iechyd a gofal. • Ehangu cyfleoedd recriwtio a gyrfaoedd gan adeiladu ar y cynnig prentisiaeth, recriwtio rhyngwladol ac ymgyrchoedd hyrwyddo penodol. • Cyflymu llwybrau dysgu gan gynnwys graddau rhan-amser ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal, a chynnig Symleiddio Myfyrwyr arbenigol.	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
14. Adolygu, ailgynllunio a gweithredu gwaith **arweinyddiaeth a datblygu tîm** gan wella arweinyddiaeth glinigol a ffocws y sefydliad cyfan ar werth.	
Camau Allweddol:	
• Cyflwyno cyfres o raglenni Datblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth gan gynnwys Datblygu Arweinyddiaeth Glinigol. • Lansio Academi Dysgu Dwys, gan gryfhau'r sgil a'r gallu 'Arweinyddiaeth Drawsnewidiol Ddigidol' o fewn y sir. • Darparu Arweinyddiaeth Dosturiol & rhaglen waith yn seiliedig ar dîm.	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
15. Cyflawni gwelliannau i **les ac ymgysylltiad staff**, gan weithio'n agos gydag Undebau Llafur mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar flaenoriaethau allweddol cydgysylltiedig.	
Camau Allweddol:	
• Ail-ddylunio'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. • Gweithredu mecanweithiau i ddeall, cefnogi ac olrhain lles y gweithlu gan gynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a chymorth lles.	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
16. Gwella mynediad i **addysg a hyfforddiant** o ansawdd uchel ar draws pob disgyblaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar 'dyfu ein hun'/prentisiaethau.	
Camau Allweddol:	
• Datblygu'r Model Tyfu Ein Hun gan weithio gydag AaGIC. • Gweithredu'r Fframwaith Nyrsio, Therapïau a Gwyddorau Gofal Iechyd. • Gwella Datblygiad Proffesiynol Parhaus i glinigwyr.	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
17. Rhoi camau gweithredu allweddol ar waith sy'n gwella rôl y byrddau iechyd mewn **partneriaeth a dinasyddiaeth**, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i wirfoddoli, ac ehangu mynediad i yrfaoedd gofal iechyd.	
Camau Allweddol:	
• Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid, yn systematig, byddwn yn edrych ar sut y gellir ymgysylltu â gwirfoddolwyr/mentoriaid cyfoedion ar draws gwasanaethau. • Cwmpasu a datblygu cymrodoriaeth ymddeol – gan gefnogi'r rhai sy'n ymddeol o'r GIG i barhau i ymgysylltu â'r system. • Gweithredu Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal. • Datblygu Ysgol Gwirfoddolwyr a Gofalwyr.	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd cynllunio'r gweithlu a datblygu sefydliadol yn cefnogi ac yn galluogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol yn y cynllun hwn.

Canlyniadau Powys

- Mae'r rhai sy'n fy nghefnogi yn gallu gwneud penderfyniadau ac yn gallu ymateb oherwydd eu bod yn wybodus ac yn gymwys. Os nad ydyn nhw'n gallu fy helpu'n uniongyrchol, maen nhw'n gwybod pwy all.
- Fel gofalwr, rydw i a'r rhai rydw i'n gofalu amdanynt yn rhan o'r ' tîm'.
- Rydw i'n gallu manteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a datblygu ym Mhowys sy'n fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau a'm cyfleoedd.
- Fe'm galluogir i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol lle y bo'n briodol.
- Rydw i'n ymwneud ag ac yn fodlon â'm gwaith.

Blaenoriaethau Strategol

13. Dylunio, datblygu a gweithredu dull cynhwysfawr o gynllunio'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar ddenu/sicrhau gweithlu ar gyfer gwasanaethau wedi'u targedu (gan gynnwys recriwtio rhyngwladol).

14. Adolygu, ailgynllunio a gweithredu gwaith arweinyddiaeth a datblygu tîm, gan wella arweinyddiaeth glinigol a ffocws y sefydliad cyfan ar werth.

15. Cyflawni gwelliannau i les ac ymgysylltiad staff, gan weithio'n agos gydag Undebau Llafur mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar flaenoriaethau allweddol ar y cyd.

16. Gwella mynediad i addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ar draws pob disgyblaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar 'Tyfu Ein Hun'/prentisiaethau.

17. Rhoi camau gweithredu allweddol ar waith sy'n gwella rôl y byrddau iechyd mewn partneriaeth a dinasyddiaeth, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i wirfoddoli, ac ehangu mynediad i yrfaoedd gofal iechyd.



Digidol yn Gyntaf Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol Tair Blynedd a Chamau Allweddol	
18. Gweithredu **systemau digidol clinigol** sy'n galluogi gwell gofal yn uniongyrchol, gan gynnwys rhannu cofnodion clinigol trawsffiniol, blaenoriaethau gwasanaeth clinigol (nyrsio, gofal llygaid, rhagnodi), a theleofal.	
Camau Allweddol:	
- Gweithredu rhaglenni allweddol i ddarparu Gofal Digidol, gan gynnwys digideiddio cofnodion iechyd, Cofnodion Gofal Nyrsio Cymru (WNCR), Cam 2 WCMS, Digideiddio Llygaid, Rhagnodi electronig a gweinyddu meddyginiaethau a system rheoli gwelyau. - Gweithredu'r rhaglen drawsffiniol, gan gefnogi cyswllt rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru ag Ymddiriedolaethau Lloegr. - Gwella systemau allweddol i gefnogi'r ddarpariaeth gan gynnwys disodli'r system o Canisc, Cais am Brawf Electronig a Malinko. - Darparu rhaglenni Teleiechyd a Thelefeddygaeth.	Cyfarwyddwr Cyllid
19. Gweithredu gwelliannau allweddol i **seilwaith a deallusrwydd digidol**, gan gynnal Adolygiad o'r Gwasanaeth Digidol ar gyfer y tymor canolig/hirdymor.	
Camau Allweddol:	
- Gwella gallu a systemau deallusrwydd busnes. - Gwella llwyfannau allweddol i wella mynediad gan gynnwys Office 365, clinigau rhithwir, logio i mewn dim ond unwaith ar gyfer ceisiadau clinigol, sgriniau mynediad cleifion mewnol, atgyfeiriadau electronig, rheoli stoc mewn wardiau. - Cefnogi datblygiadau digidol yn Rhaglen Gogledd Powys. - Dylunio a gweithredu hyfforddiant ar gyfer mynediad yn seiliedig ar rôl a chydrannau gweinyddol gan gynnwys arddywediad digidol a thanysgrifio. - Datblygu a gweithredu Deallusrwydd Artiffisial mewn roboteg, dysgu peirianyddol a chymorth ar gyfer y tu allan i oriau. - Hyrwyddo datblygiad seilwaith fesul cam gan gynnwys print, amnewid teleffoni a seiberddiogelwch.	Cyfarwyddwr Cyllid



Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd Digidol yn Gyntaf yn cefnogi'r blaenoriaethau strategol yn y cynllun hwn.

Canlyniadau Powys

- Rydw i'n gallu dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnaf ar-lein, megis trefnu neu newid apwyntiadau, talu fy miliau, hunanasesu neu i gael gafael ar feddyg neu ymgynghorydd heb orfod teithio.
- Rydw i'n cael y cymorth i ddefnyddio technoleg a chael mynediad at adnoddau i ganiatáu imi fod yn annibynnol yn ddigidol.

Blaenoriaethau Strategol

18. Gweithredu systemau digidol clinigol sy'n galluogi gwell gofal yn uniongyrchol, gan gynnwys rhannu cofnodion clinigol trawsffiniol, blaenoriaethau gwasanaeth clinigol (nyrsio, gofal llygaid, rhagnodi), a theleofal.

19. Gweithredu gwelliannau allweddol i seilwaith digidol a deallusrwydd, cynnal Adolygiad o'r Gwasanaeth Digidol ar gyfer y tymor canolig/hirdymor, alinio â'r Rhaglenni Adnewyddu a gwella'r defnydd o systemau gofal iechyd.

Amgylcheddau Arloesol Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol Tair Blynedd a Chamau Allweddol	
20. Gweithredu ymrwymiadau uchelgeisiol i **leihau allyriadau carbon, gwella bioamrywiaeth a lles amgylcheddol**.	
Camau Allweddol:	
Gweithredu Cynlluniau Cyflawni Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth: - Defnyddio System Rheoli Amgylcheddol ISO14001 gan gynnwys olrhain a gwella effaith bioamrywiaeth ac ecosystemau. - Asesu effaith gan gynnwys defnyddio Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) i ystyried deunyddiau llai amgylcheddol niweidiol lle bynnag y bo'n ymarferol. - Cynnal arolygon coed ar gyfer pob coeden a gwympwyd ar dir BIAP, a phlannu o leiaf 2 goeden frodorol i bob un. - Lleihau a rheoli gwastraff gan gynnwys ailgylchu ac ailddefnyddio cynhyrchion gwastraff, gwastraff fferyllol a nwyon meddygol, hyrwyddo/gwaredu ac ailgylchu sy'n benodol i fewnanadlwyr, plastigau mewn mentrau gofal iechyd. - Rheoli ynni a dŵr gan gynnwys ynni adnewyddadwy; rhaglen ôl-osod ar gyfer uwchraddio ynni'n effeithlon erbyn 2030; datrysiadau cynhyrchu gwres carbon isel ar gyfer pob safle sy'n fwy na 1000m2 erbyn 2030; Goleuadau LED erbyn 2025. - Trafnidiaeth gynaliadwy yn unol â Chynllun Gweithredu Teithio Llesol Llywodraeth Cymru: rheoli cerbydau, gweithio o bell, rhannu car, cynllunio safleoedd diogelu yn y dyfodol ar gyfer gwefru trydan (mewn partneriaeth â Chydwasanaethau'r GIG). - Caffael a phrynu gan gynnwys dull cylch bywyd a phwysoli gwasanaethau cynaliadwy. - System Rheoli Adeiladau erbyn 2023; Safonau BREAAM ar gyfer gwaith adeiladu newydd ac adnewyddu; gwell amddiffyniadau bioamrywiaeth, datblygiadau yn y dyfodol yn unol â sero net / Dulliau Adeiladu Modern. - Cyfathrebu ac ymgysylltu'n rhagweithiol i sicrhau arweinyddiaeth a gwaith o hyrwyddo ymddygiadau/ arferion gorau a mentrau carbon isel.	Cyfarwyddwr Yr Amgylchedd
21. Gweithredu **gwelliannau ym maes cyfalaf, ystadau a chyfleusterau** sy'n gwella'n uniongyrchol y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion/y cyhoedd a lles/profiad staff.	
Camau Allweddol:	
- Cyflawni Rhaglen Gyfalaf Ddewisol a Phrif Raglen Gyfalaf. - Gan gynnwys datblygiadau ym Machynlleth; Maes Parcio Aberhonddu; Cam 2 Llandrindod; Canolfan Gofal Sylfaenol Llanfair Caereinion).	Cyfarwyddwr Yr Amgylchedd
- Sicrhau Cydymffurfiaeth Cyfleusterau ac Ystadau a Gwelliannau. - Storfeydd a Dosbarthiad, Iechyd a Diogelwch, Arlwyo a Hylendid Bwyd, Gwasanaethau Cymorth, Cydymffurfiaeth Ystadau.	
- Cyflwyno Campws Amlasiantaethol - Fel rhan o Raglen Lles Gogledd Powys - gweler y dudalen flaenorol.	

Mae'r adran hon yn nodi cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau carbon, bioamrywiaeth, gwelliannau amgylcheddol ac ystadau, sy'n gwella gofal, profiad a lles yn uniongyrchol i'r boblogaeth a staff y bwrdd iechyd.

Canlyniadau Powys

- Rydw i'n rhan o gymuned sy'n ffynnu gydag amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, digwyddiadau cymdeithasol a mynediad at wasanaethau cyngor ac arweiniad i gefnogi fy lles.
- Mae gen i fynediad i Ganolfan Ranbarthol Wledig sy'n cynnig siopau iechyd a gofal mewn un lle – diagnostig, cyngor ac arweiniad, triniaethau dydd ac ati sy'n lleihau teithio diangen y tu allan i'r sir.
- Rydw i'n cael fy ysgogi a'm cefnogi i ddefnyddio'r awyr agored ar gyfer fy lles a'm gofal.
- Rydw i'n gallu addasu fy nghartref i'm helpu i fyw'n annibynnol a theimlo'n ddiogel.
- Mae gen i ofal mewn amgylchedd sy'n addas i'r diben ac yn gwella fy mhrofiad.

Blaenoriaethau Strategol

20. Gweithredu ymrwymiadau uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon, gwella bioamrywiaeth a lles amgylcheddol.

21. Gweithredu gwelliannau ym maes cyfalaf, ystadau a chyfleusterau sy'n gwella'n uniongyrchol y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion/y cyhoedd a lles/profiad staff.

Trawsnewid mewn Partneriaeth Crynodeb o Flaenoriaethau Strategol Tair Blynedd a Chamau Allweddol	
22. **Gwella ansawdd** (diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad) ar draws y system gyfan; adeiladu effeithiolrwydd sefydliadol.	
Camau Allweddol:	
- Darparu'r Fframwaith Ansawdd Clinigol gan ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth allweddol gan gynnwys Mamolaeth a Newyddenedigol; Y sector Cartrefi Gofal a sicrwydd darparwyr.	Cyfarwyddwr Nyrsio Cyfarwyddwr Therapïau
- Diwygio'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu a'r Dull Perfformiad Integredig, er mwyn olrhain cydnerthedd a gwelliant y system.	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad
- Cyflawni'r Cynllun Ymchwil ac Arloesi. - Canolfan arloesi ymchwil, gwaith arloesi a gwella i alluogi gofal clinigol o ansawdd uchel, capasiti Gwella Ansawdd ac archwiliad clinigol.	Cyfarwyddwyr Meddygol
23. **Gwella gwaith system integredig/gwaith partneriaeth**, yng Nghymru a Lloegr, gan wella dulliau rhanbarthol o gynllunio a darparu gwasanaethau allweddol.	
Camau Allweddol:	
- Cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gydag adolygiad canol blwyddyn o'r Strategaeth Iechyd a Gofal.	Amryw
- Darparu Rhaglen Lles Gogledd Powys.	Amryw
- Rheoli Newid Strategol gyda chamau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer rhaglenni byw sy'n effeithio ar boblogaeth Powys.	Amryw
- Diwygio a diweddaru trefniadau Adran 33 ar gyfer cartrefi gofal.	Cyfarwyddwr Nyrsio
- Cyflwyno'r rhaglen Gyfathrebu, gyda gwaith ymgysylltu parhaus wedi'i dargedu i gefnogi blaenoriaethau yn y cynllun hwn.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Wasanaethau Cymunedol
24. **Darparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth**, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau a phrofiad, gan gynnwys defnyddio a rheoli adnoddau'n effeithiol.	
Camau Allweddol:	
- Darparu rhaglen iechyd a gofal yn seiliedig ar werth (Porth Adnewyddu).	Amryw
- Darparu Strategaeth Cyllid a Chynllun Cyllid.	Cyfarwyddwr Cyllid
25. Gweithredu blaenoriaethau **llywodraethu a gwella sefydliadol** allweddol gan gynnwys ymgorffori rheoli risg, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau effeithiol; archwilio ac effeithiolrwydd; a systemau atebolrwydd a datblygiad sefydliadol y Bwrdd.	
Camau Allweddol:	
- Cyflwyno Rhaglen Waith Llywodraethu.	Ysgrifennydd y Bwrdd
- Diwygio'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu a'r Dull Perfformiad Integredig, er mwyn olrhain y 6 maes.	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad
- Cyflawni'r Fframwaith Datblygu Sefydliadol.	Prif Swyddog Gweithredol / Gwasanaethau'r Gweithlu a Datblygu sefydliadol

Mae'r adran hon yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd mewn partneriaeth ar draws Powys fel rhanbarth ynddo'i hun, yn ogystal â rhanbarth ehangach Canolbarth Cymru ac yn genedlaethol, yng Nghymru ac ar draws y ffin yn Lloegr.

Canlyniadau Powys

- Fel un o drigolion Powys rydw i'n 'adrodd fy stori' unwaith ac rydw i'n hyderus bod y rhai sy'n gofalu amdanaf yn gweithio gyda'i gilydd er fy lles gorau.
- Mae'r gwasanaethau rydw i'n derbyn yn gydgysylltiedig ac yn ddi-dor.
- Rydw i'n gallu cael mynediad at adeiladau ac adnoddau at amryw o ddibenion, gan nifer o sefydliadau.
- Mae fy nghymuned yn gallu gwneud mwy i gefnogi iechyd a lles.

Blaenoriaethau Strategol

22. Rhoi camau gweithredu allweddol ar waith i wella ansawdd (diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad) gwasanaethau ar draws y system gyfan.

23. Datblygu a rhoi camau gweithredu allweddol ar waith i wella gwaith system integredig/gwaith partneriaeth, yng Nghymru a Lloegr, gan wella dulliau rhanbarthol o gynllunio a darparu gwasanaethau allweddol.

24. Darparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau a phrofiad, gan gynnwys defnyddio a rheoli adnoddau'n effeithiol.

25. Gweithredu blaenoriaethau llywodraethu a gwella sefydliadol allweddol gan gynnwys ymgorffori rheoli risg, fframwaith polisïau effeithiol; sicrwydd; effeithiolrwydd a systemau atebolrwydd a datblygiad sefydliadol y Bwrdd.

Ble’r ydym ar hyn o bryd	Ble hoffwn fod erbyn 2027
Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael diagnosteg, triniaethau cleifion allanol ac achosion dydd y tu allan i Bowys.	Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael diagnosteg, triniaethau cleifion allanol ac achosion dydd ym Mhowys.
Mae’r rhan fwyaf o blant yn cael diagnosteg, triniaethau cleifion allanol ac achosion dydd y tu allan i Bowys.	Bydd cynnydd bach yn nifer y plant sy’n cael diagnosteg bediatrig, triniaethau cleifion allanol ac achosion dydd yn y sir. Fodd bynnag, oherwydd y sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer diagnosteg a thriniaethau mwy cymhleth, bydd y rhan fwyaf o blant yn parhau i dderbyn y gofal hwn y tu allan i Bowys.
Mae’r rhan fwyaf o bobl yn derbyn gofal arbenigol tu allan i Bowys.	Bydd mwy o bobl yn derbyn gofal arbenigol ym Mhowys, gan gynnwys drwy geisiadau digidol, pan fydd yn ddiogel ac yn effeithiol gwneud hynny.
Mae pobl yn derbyn gwasanaethau adsefydlu mewn cymysgedd o leoliadau acíwt a chymunedol.	Bydd mwy o bobl yn derbyn gwasanaeth adsefydlu mewn lleoliadau cymunedol a'u cartref eu hunain.
Mae pobl yn teithio i Gaerdydd neu Stoke ar gyfer gwasanaethau adsefydlu cymhleth.	Bydd rhai pobl yn defnyddio gwasanaethau adsefydlu cymhleth ym Mhowys.
Mae pobl yn cael y rhan fwyaf o'u diagnosteg a'u triniaethau canser y tu allan i Bowys.	Gall pobl sydd angen diagnosteg a thriniaethau canser llai cymhleth dderbyn y rhain yn y Ganolfan Ranbarthol Wledig neu, lle bo hynny'n bosibl, yn eu cartref.
Mae pobl yn gallu cael mynediad at wahanol wasanaethau gofal a chymorth gartref, yn dibynnu ar leoliad eu cartref.	Gall pawb gael mynediad i'r un gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref a, phan fo angen, gallant gael gofal amlasiantaethol 24/7.
Ar hyn o bryd, gall nifer fach o bobl gael gofal brys yn y cartref neu mewn uned mân anafiadau.	Gall mwy o bobl gael gofal brys yn y cartref, yn y gymuned neu yn y Ganolfan Ranbarthol Wledig.
Mae gan nifer fach o bobl fynediad at dechnoleg sy'n eu helpu i hunan-ofalu a byw'n annibynnol.	Mae gan y rhan fwyaf o bobl sydd ei angen, fynediad at dechnoleg sy’n eu helpu i hunan-ofalu a byw’n annibynnol.
Mae nifer fawr o oedolion a phlant yn derbyn gofal drwy wasanaethau statudol.	Bydd timau cymorth a chefnogaeth gynnar amlasiantaethol yn nodi pobl mewn angen yn gynnar fel bod llai o oedolion a phlant yn mynd i mewn i'r system ofal.
Mae’r galw am wasanaethau iechyd a gofal yn codi.	Mae buddsoddiad mewn atal ac ymyrraeth gynnar yn golygu bod mwy o bobl yn mwynhau iechyd a lles da ac yn atal y galw am wasanaethau iechyd a gofal rhag codi yn hirdymor.

Bwrdd Iechyd Addysgu	https://cy.powysrpb.org/
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	https://cy.powysrpb.org/
Strategaeth Iechyd a Gofal	https://biap.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/strategaethau-a-chynlluniau/cyd-strategaeth-iechyd-a-gofal-ar-gyfer-powys-2017-2027-fersiwn-gryno/
Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau	https://cy.powys.gov.uk/article/7574/Tuag-at-2040---Cynllun-Llesiant-Powys
Cyhoeddus Powys	https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles
Cronfa Lles Powys	https://cy.powys.gov.uk/article/6545/Banc-Gwybodaeth-ar-Lesiant
Cyngor Iechyd Cymuned Powys (CHC)	https://powyscic.gig.cymru/
Cyngor Sir Powys	https://cy.powys
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)	https://www.pavo.org.uk/cy/hafan
Cyd-bwyllgor Canolbarth	https://cbbc.gig.cymru/
Iechyd a Gofal Gwledig	https://ruralhealthandcare.wales/cy/hafan/
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth	https://ambiwlans.gig.cymru/
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol	https://pgiac.gig.cymru/
Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys	https://pgiac.gig.cymru/
Llywodraeth	https://llyw.cymru
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW)	https://aagic.gig.cymru
Iechyd Cyhoeddus	https://icc.gig.cymru/
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	https://igdc.gig.cymru/
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	https://pcgc.gig.cymru/
NHS England / Gwelliant	www.england.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

2022 > 25

Os hoffech ragor o wybodaeth,
e-bostiwch
Powys.Planning@wales.nhs.uk